EISTEDDFOD TREFEGLWYS

Cynhaliwyd y 103 Eisteddfod a drefnwyd gan Pwyllgor Eisteddfod Trefeglwys eleni ar ddydd Sadwrn Hydref 6ed yn y Neuadd Goffa.
Y Beirniaid eleni oedd Tudur Dylan, Caerfyrddin yn beirniadu y Llên a Llefaru, daeth Gareth Rhys Davies, Caerdydd i feirniadu yr adran Cerdd gan nad oedd Sian Meinir ar gael ar y diwrnod. Cathryn a Ruth Jenkins, Trefeglwys bu yn beirniadu'r Dawnsio. Roedd y gwaith llaw i'w gweld yn addurno'r Neuadd Fwyta y Beirniaid yn yr adranau yma oedd, Crefftau – Wendy Wigley, Llangurig, Llên y plant – Delma Thomas, Caersws, Llawysgrifen – Eryl Douglas Jones, Trefeglwys, Gwaith Llaw – Eirwen Turner, Llanidloes
Bu'r Beirniaid yn brysur iawn trwy'r dydd yn arbennig yng nghyfarfod y prynhawn gyda dros pymtheg o blant mewn rhai cystadlaethau, cafwyd cefnogaeth dda iawn o'r ysgol lleol, Ysgol Dyffryn Trannon.
Enillwyd y cwpan am y cystadleuydd mwyaf addawol gan Rowan Evans, Trefeglwys a Thlws Catrin Alwen am yr unawdydd gorau yng ngyfarfod y prynhawn gan Aria Davies, Llanbrynmair, mae'n siwr bydd dyfodol disglair i'r ddau ohonynt. Owen Turner enillodd y cwpan yn yr adran grefftau am greu llun oedd yn portreadu "Tai a Chartrefi"

Bethan Lloyd Owen, Sali Ann Preston a Gwynfryn Evans bu yn cadw trefn ar gystadlaethau'r llwyfan gydag Alwena Nutting, Aberhafesp yn cyfeilio yng nghyfarfod y prynhawn a Huw Davies, Llanerfyl yng nghyfarfod yr hwyr. Eleni derbyniodd y pwyllgor gwpan parhaol newydd oddiwrth Mrs Elizabeth Evans a'r teulu er cof am ei gwr Gareth, bu Gareth yn gwneud tlysau'r gadair am flynyddoedd lawer. Aneira Evans oedd derbynydd cyntaf y cwpan ar gystadleuaeth yr Unawd Gymraeg.
Cynigwyd Tlws y Gadair eleni am gerdd ar y testun"Trysor", daeth deg cerdd i fewn i'r gystadleuaeth gyda'r Parchedig Judith Morris, Penrhyn Coch yn fuddugol. Ar ôl gweinidogaethu yn ardal Penrhyn Coch ac Aberystwyth mae erbyn hyn yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru. Trysor oedd testun y gerdd a bu hi yn son am un o bleserau bychan bywyd sef ei thrysor o fynd i nofio. Dyma rhan o'r gerdd :-
"rwyf mewn byd arall
rwy'n ddawnswraig, yn alarch
rwy'n sglefrio ar wyneb y dwr
rwy'n for-forwyn a chynffon pysgodyn aur"….
"rwy'n hofran fel pluen yn ddiogel yng nghroth fy mam
Heb ymboeni am yr un gofal"

Ac yn diweddu "Yn rhy fuan daw'r amser i ben
ac mae'n bryd imi lusgo
fy hun a'm breuddwydion
allan o'r pwll,
gan fwrw ati i gofleidio gorchwylion y dydd
gydag oglau'r dwr
yn f'atgoffa o drysor
a fydd yn disgwyl amdanaf
drannoeth, drennydd a thradwy".

Y Prifardd Tudur Dylan bu yn arwain seremoni'r cadeirio, ac ar ôl ei feirniadaeth ar ganiad y Corn Gwlad gan Zac Evans cyrchwyd y Bardd Buddugol i'r llwyfan gan Joyce Smithies a Tirion Jones. Ceidwad y Cledd oedd Iwan Owen gydag Alun Bunford yn canu cân y cadeirio a Bethan Lloyd Owen a Margaret Jones yn cyfarch y Bardd.
Llywydd yr eisteddfod eleni oedd Glyn Jones, Glyn y canwr ar gof, erbyn hyn o Gemaes. Bu yn hel atgofion am ei fagwraeth yn y Gwernau, Llawryglyn, am ei amser yn yr ysgol a dianc at Dafydd Morgan y gof oedd yn gweithio yn y gofaint gyferbyn â'r ysgol, wrth gwrs mae'r gofaint erbyn hyn yn Sain Ffagan.
Bu Glyn yn brysur iawn yn cyflwyno'r cwpanau a hefyd yn canu gyda'r côr
Ar ddiwedd y noswaith gwnaed y diolchiadau gan Gadeirydd y Pwyllgor Iwan Owen, yn sicr cafwyd diwrnod i'w gofio.

Canlyniadau

Unawd oed Meithrin	1. Maisie Grew	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Nansi Hughes	,, ,, ,,
	3. Sioned Evans	,, ,, ,,

Llefaru oed Meithrin	1.Maisie Morgan	Ysgol Dyffryn Trannon
	2.William Savage	,, ,, ,,
	3.Nansi Hughes	,, ,, ,,
Unawd Bl 1 a 2	1.Savanna Lloyd Evans	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Nansi Lloyd	Ysgol Carno
	3. Teleri Rowlands	Ysgol Dyffryn Trannon
Llefaru Bl 1 a 2	1. William Beamond	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Gethin Evans	,, ,, ,,
	3. Hannah Evans	,, ,, ,,
Unawd Bl 4 ag Iau	1. Aria Wyn Davies	Llanbrynmair
	2. Rowan Evans	Ysgol Dyffryn Trannon
	3. Llywelyn Turner	,, ,, ,,
Llefaru Bl 4 ag Iau	1. Rowan Evans	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Cyfartal, Caitlin Turner, Carys Jones, Steffan Jones, Tirion Evans, Kirsty Mills Llywelyn Turner, Carys Davies Williams, Bethan Evans, Aria Wyn Davies, Menna Vaughan, Lucy Beamond, Lexi Francis Jones.	
Unawd Bl 6 ag Iau	1. Eleri Vaughan	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Ffion Davies Williams	,, ,, ,,
	3. Sophie Ashton	,, ,, ,,
	3. Eleina Sankey	Rhayader
Llefaru Bl 6 ag Iau	1. Sophie Ashton	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Ffion Davies Williams	,, ,, ,,
	3. Seren Thomas	,, ,, ,,
Côr Plant	1. Côr Y Dyffryn	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Côr Trannon	,, ,, ,,
	3. Côr Bach	,, ,, ,,
Parti Cydlefaru	1. Parti Ysgol Dyffryn Trannon	
Unawd Piano Bl 6 ag Iau	1. Martha Jones- Dekerk	Cas Gwent
	2. Tirion Evans	Ysgol Dyffryn Trannon
	3. Kirsty Mills	,, ,, ,,
Dawns Werin Bl 6 ag Iau	1. Parti Ffion	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Parti Sali	,, ,, ,,
Dawns Gyfoes Unigol Bl 6 ag Iau		
	1. Carys Davies Williams	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Seren Thomas	,, ,, ,,
	3. Caitlin Turner	,, ,, ,,
Dawns Gyfoes Grwp	1. Y Rebals	Ysgol Dyffryn Trannon
	2. Ser y Dyffryn	,, ,, ,,
	3. Trwbl	,, ,, ,,
Unawd dan 16	1. Rhian Lewis	Meifod
	2. Catrin Bufton	Sarn
Llefaru dan 16	1. Rhian Lewis	
Can Werin dan 16	1. Rhian Lewis	
Unawd dan 21	1. Mared Jones	Dolgellau
Llefaru dan 21	1. Mared Jones	
Unawd dan 30	1. Mared Jones	
Llefaru dan 30	1. Mared Jones	
Unawd o Sioe Gerdd	1. Mared Jones	
	2. Catrin Bufton	
	3. Owen Lloyd Jones	Clatter
Canu Emyn dros 60	1. Gwynne Jones	Llanafan
	2. Tecwyn Jones	Machynlleth
	3. Owen Lloyd Jones	
	3. Aled Jones	Commins Coch
Her Unawd	1. Aneira Evans	Aberhosan

	2. Crwys Evans	Pont rhyd y groes
	3. Marianne Jones Powell	Llandre
Her Lefaru	1. Maria Evans	Caerfyrddin
Unawd Gymraeg	1. Aneira Evans	
	2. Gwynne Jones	
	3. Tecwyn Jones	
Darllen o'r Beibl	1. Maria Evans	
Cân Werin	1. Marianne Jones Powell	
	2. Owen Lloyd Jones	
	3. Aled Jones	
Côr	1. Côr Llanwnog	
Deuawd	1. Owen a Sonia Lloyd Jones	
Cerdd y Gadair	Judith Morris	Penrhyn Coch
Englyn	Huw Alun Roberts	Yr Wyddgrug
Cyfansoddi Emyn,	Mary Morgan	Llanrhystud
Cân Ddigri	Mary Morgan	
Stori Fer	Mererid Boswell	Aberystwyth
Limrig	Marlis Jones	Caersws
Cyfansoddi Emyn Don	Godfrey Williams	Pontcysyllte